Stonewall
CYMRU

Eich Cyfrif a'ch Cynnwys!

Trydydd arolwg pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol Cymru gyfan - *Arolwg Cryno 2007*

Cynnwys

Cydnabyddiaeth	2
Rhagair a 10 argymhelliad allweddol	2
Cyflwyniad	4
Crynodeb o ganfyddiadau allweddol	5
Cyfeirnodau	11

Cydnabyddiaeth (IFC)

Mae Stonewall Cymru yn ddiolchgar i Brosiect Cydraddoldeb Busnesau Bach a Chanolig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, am rhan-gyllido'r arolwg sy'n sail i'r crynodeb ymchwil ac argymhellion hyn.

Hefyd hoffem ddiolch i Amanda Robinson a Matthew Williams o Brifysgol Caerdydd am gynnal yr arolwg. Hoffai Stonewall Cymru hefyd ddiolch i'r 403 ymatebydd a gyfranogodd yn yr arolwg ar lein neu yn ein nifer o ddigwyddiadau allanol. Gwerthfawrogir eich ymroddiad at ein gwaith yn fawr.

Gellir derbyn adroddiad llawn am ganfyddiadau'r ymchwil drwy:
www.stonewallcymru.org.uk/countedin
www.stonewallcymru.org.uk/ninnauhefyd
neu drwy gysylltu gyda Stonewall Cymru:
cymru@stonewallcymru.org.uk
© ISBN number xxxxxxxxxxxxx

Stonewall Cymru

Cardiff
3ydd llawr
Transport House
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9SB
Ffôn 029 2023 7744

Bangor
Tŷ Gwydr
1 Rhes Trefelyan
Stryd Fawr
Bangor
LL57 1AX
Ffôn 0845 4569823
Fax 07092 333962

cymru@stonewallcymru.org.uk
www.stonewallcymru.org.uk

Rhagair

"Eich Cyfrif a'ch Cynnwys!" yw'r 3ydd mewn cyfres o arolygon ac Adroddiadau Asesu Anghenion pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol [LHD] Cymru Gyfan gan Stonewall Cymru. Ystyriwyd profiadau pobl LHD o ran trosedd, cyflogaeth, y cyfryngau, iechyd, addysg a chynhwysiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yng Nghymru.

Mae'r crynodeb yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol o adroddiad llawn Eich Cyfrif a'ch Cynnwys, Arolwg Cymru Gyfan Stonewall Cymru 2006 (Williams and Robinson) ac yn rhoi manylion am argymhellion newydd i'w mabwysiadu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, llywodraeth leol, darparwyr gwasanaeth a'r sector breifat.

Gellir crynhoi'r darlun cyffredinol fel un o gynhwysiad a chyfraniad cynyddol gan bobl LHD yng nghymdeithas Cymru. Serch hynny, mae'r newidiadau hyn yn tynnu sylw at yr ardaloedd lle dylid canolbwyntio ymdrechion yn y dyfodol.

Mae angen gwelliant yn y lefelau o anfodlonrwydd sy'n cael ei fynegi o ran darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus (addysg, heddlu, iechyd a thai) drwy daclo aflonyddu homoffobaidd, cynyddu mynediad at swyddi sector breifat a safon bywyd mewn swyddi sector gyhoeddus, casglu data ar faterion cyfeiriadedd rhywiol a phortread y cyfryngau o fywydau LHD. Hefyd mae angen parhaus am gefnogaeth cymheiriaid drwy ddatblygu a chyfnerthu strwythur o fewn cymunedau LHD ledled Cymru.

Mae'r 10 argymhelliad allweddol canlynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u llunio o'r corff o argymhellion a fydd yn sail i raglen waith Stonewall Cymru dros dair blynedd. Mae'r argymhellion hyn yn dilyn rhai Arolwg Eich Cyfrif Neu'ch Eithrio 2003 ac Adroddiad Ninnau Hefyd! 2004

10 argymhelliad allweddol

★ Mae Deddf Llywodraeth Cymru [s.77] yn mynnu hyrwyddo cydraddoldeb i bawb yng Nghymru. Dylai fod yn statudol ofynnol i bob corff cyhoeddus brif ffrydio cydraddoldeb cyfeiriadedd rhywiol mewn polisi, cynllunio a darpariaeth gwasanaeth.

★ Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod hyfforddiant ac arweiniad cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer holl staff GIC Cymru yn cynnwys pryderon ac anghenion gofal iechyd LHD.

★ Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod adnodd DVD Stonewall Cymru ar gael yn ysgolion Cymru i hyfforddi athrawon a thaclo bwlio homoffobaidd.

★ Estyn i archwilio i lwyddiant polisïau gwrth-fwlio homoffobaidd yn ysgolion Cymru fel rhan o'r broses arolygu.

★ Llywodraeth Cynulliad Cymru i alluogi sefydlu rhith-rwydweithiau LHD ledled Cymru i gynorthwyo cyfathrebu ar gyfer y ddwy bartneriaeth strategaeth gymunedol leol er mwyn clywed lleisiau pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, yn arbennig y rhai o ardaloedd gwledig a menywod, pobl iau, pobl hyn, pobl ag anableddau ac o leiafrifoedd ethnig. Dyma ddatblygiad o Argymhellion Ninnau Hefyd!

★ Yn unol â rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad am bolisïau a gweithdrefnau addas i sicrhau cyfle cyfartal a herio bwlio ac aflonyddu staff LHD yn y gweithle.

★ Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru barhau i ystyried effeithiau'r eithriadau i'r Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003, ar gyfer sefydliadau crefyddol.

★ Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi cyflwyno trosedd o annog casineb yn erbyn pobl LHD. Yn yr un modd, i gefnogi cyflwyno troseddau penodol gan gynnwys trais, aflonyddu ac eiddo, fel y troseddau wedi'u hysgogi gan hil sy'n cael eu darlunio yn y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn (1998).

★ Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau hyfforddiant Amrywiaeth i bob sefydliad sector gyhoeddus, gwirfoddol a phreifat sy'n ymwneud â'r system Cyfiawnder Troseddol, i gynnwys ymwybyddiaeth o anghenion penodol pobl LHD.

★ Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar gael i bobl LHD a'u bod yn ystyried eu hanghenion.

Mae'r ffaith bod yr arolwg yn datgelu gwelliannau ym mywydau pobl LHD yng Nghymru yn dangos bod gwelliannau pellach yn bosib.

Gobeithiwn y bydd y crynodeb ymchwil a'r argymhellion yn cael eu defnyddio i sicrhau cynhwysiad a chyfraniad pellach fyth ar gyfer a gan bobl LHD yng Nghymru.

Liz Morgan
Cyfarwyddydd, Stonewall Cymru

Cyflwyniad

Mae'r crynodeb hwn yn darparu canfyddiadau ac argymhellion polisi ar sail y trydydd yng nghyfres o arolygon Stonewall Cymru, (Eich Cyfrif Neu'ch Eithrio! 2003, Ninnau Hefyd! 2004). Ystyriodd yr arolygon brofiadau pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LHD) o ran trosedd, cyflogaeth, y cyfryngau, iechyd, addysg a chynhwysiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yng Nghymru. Mae teitl y crynodeb hwn, Eich Cyfrif a'ch Cynnwys! yn dangos bod gwelliannau i'w nodi yn rhai o'r agweddau hyn o fywyd LHD yng Nghymru.

Mae'r crynodeb yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol o adroddiad llawn Arolwg Cymru Gyfan Stonewall Cymru (Williams and Robinson 2006) ac yn rhoi manylion am argymhellion newydd i'w mabwysiadu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, llywodraeth leol, darparwyr gwasanaeth a'r sector breifat.

Yn anffodus, nid yw'n bosibl i honni bod y 403 o bobl a ymatebodd i'r arolwg rhwng Ebrill a Hydref 2006 yn ffurfio sampl cynrychioladwy o bobl LHD yng Nghymru gan nad oes ffigwr poblogaeth sylfaenol ar gael ar gyfer ei gymharu. Nid yw cyfeiriadedd rhywiol yn gategori yn y Cyfrifiad, ac mae'n annhebygol y bydd yn cael ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2011. Felly bydd cyfeiriadedd rhywiol yn parhau i gael ei eithrio o'r cofnod data sydd yn cael ei ddefnyddio amlaf wrth gychwyn ar ymchwil cydraddoldeb, ac sy'n rhoi arweiniad i gofnodion data sylweddol eraill y llywodraeth.

Serch hynny, drwy ddadansoddi ymateb y rhai a gwblhaodd yr holiaduron arlein, yng Nghynhadledd Flynyddol Stonewall ac yn Mardi Gras 2006, gellid disgrifio poblogaeth LHD Cymru fel pobl addysgedig, yn ymwneud yn agos gyda bywyd gwleidyddol a sifil Cymru, ac sydd yn cychwyn elwa ar ymdrechion cyflogwyr i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn arbennig yn sectorau cyhoeddus a gwirfoddol y farchnad lafur.

Roedd lefelau addysg y rhai a ymatebodd yn uwch na'r boblogaeth yn gyffredinol, gyda dros 50% â chymhwyster safon gradd o'i gymharu gydag 17% o boblogaeth Cymru yn gyffredinol. Ar gyfartaledd roeddent yn ennill cyflogau uwch o'i gymharu gyda'u cydweithwyr Cymreig, ond adlewyrchwyd y bwlch cenedlaethol rhwng cyflogau'r ddau ryw wrth gymharu incwm lesbiaid a dynion hoyw. Roedd chwe deg dau y cant wedi cyfranogi mewn etholiadau, 67% yn gyson yn cyfrannu arian neu wasanaethau, a 44% yn gwirfoddoli dros sefydliad elusennol.

Gellir crynhoi'r darlun cyffredinol fel un o gynhwysiad a chyfraniad cynyddol gan bobl LHD yng nghymdeithas Cymru. Serch hynny, mae'r newidiadau hyn yn tynnu sylw at yr ardaloedd lle dylid canolbwyntio ymdrechion yn y dyfodol.

Mae angen gwelliant yn y lefelau o anfodlonrwydd a fynegwyd o ran darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus (addysg, heddlu, iechyd a thai), taclo aflonyddu homoffobaidd, mynediad at swyddi sector breifat a safon bywyd mewn swyddi sector gyhoeddus, casglu data ar faterion cyfeiriadedd rhywiol a phortread y cyfryngau o fywydau LHD.

Mae'r ffaith bod yr arolwg yn datgelu gwelliannau ym mywydau pobl LHD yng Nghymru yn dangos bod gwelliannau pellach yn bosibl. Gobeithiwn y bydd y crynodeb ymchwil a'r argymhellion yn cael eu defnyddio i sicrhau cynhwysiad a chyfraniad pellach fyth ar gyfer a gan bobl LHD yng Nghymru.

Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol

Bywydau LHD yng Nghymru

★ Ymatebodd yr un nifer yn fras o ddynion a menywod i'r arolwg. Daeth y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd o Dde Cymru (62%), ac roedd y nifer a ymatebodd o Ganolbarth Cymru a Gogledd Cymru yn 22% a 10% yn eu trefn. Cynrychiolwyd lleiafrifoedd ethnig yn y sampl yn unol â phoblogaeth gyffredinol Cymru o grwpiau lleiafrifol ethnig. Nododd tri ar ddeg y cant o'r rhai a ymatebodd bod ganddynt anabledd neu salwch hir dymor sy'n cyfyngu ar eu bywydau, o'i gymharu gyda 28% o boblogaeth Cymru yn gyffredinol (Arolwg Iechyd Cymru 2004).

★ Roedd un mewn deg yn siarad Cymraeg fel mamiaith. Dyma leiafrif sylweddol er nad yw'r cwestiwn a ofynnwyd, ai Cymraeg yw'r famiaith, yn medru cael ei gymharu'n uniongyrchol gyda'r cwestiwn yn y Cyfrifiad, lle dywedodd 16.8% o boblogaeth Cymru eu bod yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

★ Roedd saith deg wyth y cant yn gyflogedig gyda'r mwyafrif mewn gwaith llawn amser.

★ Nododd y menywod a ymatebodd 'lesbiad' (32%) a'r dynion 'dyn hoyw' (44%) fel eu dewis o hunaniaeth, yn hytrach na menyw hoyw/cyfunrywiol. Nododd naw y cant o fenywod a 9% o ddynion eu bod yn ddeurywiol.

★ Roedd chwe deg wyth y cant o'r sampl yn iau na 40 mlwydd oed (10% ohonynt yn iau nag 20), gan adael yr un arall o bob tri yn 40+. Yn gyferbyniol, mae dosraniad poblogaeth gyffredinol Cymru yn 32% o dan 40, a 48% yn 41+ (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

★ Roedd gan 35% ffydd grefyddol, y mwyafrif yn Gristnogol.

★ Roedd gan naw deg dau y cant gymhwyster ysgol, coleg neu brifysgol o'i gymharu ag 84% o'r boblogaeth yn gyffredinol (Ystadegau Cymru 2006). Roedd gan bum deg pedwar y cant gymhwyster lefel gradd o'i gymharu gydag 17% o boblogaeth Cymru.

★ O'r rhai a nododd eu hincwm, roedd y rhai a ymatebodd yn ennill cyflog uwch o'i gymharu gyda chanolrif incwm Cymru, ond nid o'i gymharu gyda chanolrif incwm y DG (Williams and Robinson 2007, ar ddod).

★ Roedd nifer uchel o'r rhai a ymatebodd yn ymwneud â chymdeithas sifil o ran pleidleisio, cyfrannu neu gynnig gwasanaethau a gwirfoddoli. Roedd tri deg y cant mewn undeb llafur. Roedd naw ar hugain y cant o fenywod ac 20% o ddynion hefyd yn perthyn i grwpiau LHD ar-lein. Roedd un mewn pump yn ymwneud â grwp LHD rhanbarthol..

Mae'r darlun hwn o'r rhai a ymatebodd, ynghyd â'r canfyddiad bod y rhai hynaf, mwyaf cymwys a ymatebodd, a'r rhai â'r cyflogau uchaf, yn tueddu i lenwi'r arolwg yng Nghynhadledd Flynyddol Stonewall neu arlein yn hytrach na'r Mardi Gras (lle cwblhawyd yr arolwg gan fwy o bobl ifanc, ddi-waith, gyda llai o gymwysterau addysgiadol), yn cynorthwyo Stonewall Cymru i nodi bod eu cefnogwyr yn ymgyrchwyr, yn ymwneud â gwleidyddiaeth a'u cymunedau ac yn mwynhau cyfalaf cymharol uchel yn gymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Gyda phartneriaid yn y llywodraeth ac yn y sector wirfoddol, mae angen mwy o waith allanol gyda phobl LHD iau, y rhai sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru a'r rhai sydd wedi eu heithrio o ran cyflogaeth ac addysg. Bydd angen i waith allanol yn defnyddio 'rhith rwydweithiau' ddefnyddio mentrau penodol er mwyn cynnwys y grwpiau hyn.

Teuluoedd a pherthynas

★ Nododd mwy o fenywod na dynion eu bod yn gofalu am blant, neu eu bod am gael plant yn y dyfodol. Roedd dros ddwy ran o dair o'r gofalwyr plant yn byw gyda'u plentyn neu blant, ac roedd bron i ddwy ran o dair o'r rhain yn nodi bod ysgol eu plant yn ymwybodol o strwythur y teulu. O'r rhain, roedd 25% yn ymwybodol o fwlio yn yr ysgol mewn perthynas â hyn.

★ Roedd saith y cant yn gofalu am rywun arall, yn hytrach na phlentyn.

★ Roedd bron i ddwy ran o dair o'r sampl mewn perthynas gyda rhywun o'r un rhyw, gyda dros 40% yn byw gyda phartner. Roedd menywod a'r rhai mewn grwpiau oedran hyn yn fwy tebygol o fod mewn perthynas tymor hir. Roedd tri ar hugain y cant o bob perthynas ar hyn o bryd dros 5 mlynedd o hyd, a'r mwyafrif rhwng 2 a 5 mlynedd, a rhai wedi dod o hyd i bartner yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

★ Gyda llai na blwyddyn ers y Ddeddf Partneriaethau Sifil, roedd wyth y cant wedi cofrestru Partneriaeth Sifil a dros bedwar deg y cant wedi dweud efallai y byddent yn cofrestri yn y dyfodol.

★ Roedd y bobl hynaf a ymatebodd (dros 41 mlwydd oed) yn llai tebygol na'r rhai iau i fod 'allan' gyda'u rhieni, perthnasau a brodyr a chwiorydd.

Erledigaeth a'r heddlu

★ Dywedodd dau ar hugain y cant o'r rhai a ymatebodd iddynt ddioddef aflonyddu homoffobaidd yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd pump y cant wedi dioddef trais homoffobaidd.

★ Tua hanner yn unig oedd wedi gwneud cwyn am y digwyddiadau wrth yr heddlu, naill ai am nad oeddent yn teimlo bod y drosedd yn ddigon difrifol neu am eu bod yn poeni am gamdriniaeth gan yr heddlu. Roedd y rhai a ymatebodd yn llai tebygol i wneud cwyn am y troseddau hyn nag i wneud cwyn am drosedd yn erbyn eiddo gydag ysgogiad homoffobaidd.

★ Dieithryn oedd y troseddwr mwyaf cyffredin. O'r rhai a wnaeth gwyn wrth yr heddlu, roedd y mwyafrif yn anfodlon gyda'r ymdriniaeth a dderbyniodd y gwyn, a'r canlyniad.

★ Dynion, yr ymatebwyr a sgoriodd uchaf ar 'raddfa gwelededd' yr arolwg (a oedd yn profi 33 paramedr ledled bywyd gwaith, cymdeithasol a theuluol), ynghyd â phobl LHD ag anabledd a'r rhai mewn amgylchiadau economaidd tlotach, oedd fwyaf tebygol i ddioddef aflonyddu homoffobaidd.

★ Er nad oedd yr arolwg yn gofyn yn benodol am ddigwyddiadau o drais yn y cartref, amcangyfrifwyd mewn arolwg cenedlaethol diweddar, a oedd yn cymharu bob math o gamdriniaeth yn y cartref mewn perthynas heterorywiol a chyfunrywiol, bod rhyw fath o gamdriniaeth yn digwydd mewn 1 o bob 4 perthynas cyfunrywiol (CoHSAR 2006). Gosododd y rhai a ymatebodd 'ceisio cymorth gan yr heddlu' yn olaf yn y rhestr o ddeg lle i gael cymorth (CoHSAR 2006).

Cyflogaeth

★ Nododd bron i un o bob tri y byddent yn cael eu denu at swyddi lle'r oedd enw da am gydraddoldeb ac amrywiaeth ac meddai dros 50% y byddai cael polisi cyfle cyfartal yn dylanwadu ar eu dewis o gyflogwr.

★ Roedd y ffaith fod gan sefydliad arweinydd proffil uchel a oedd yn lesbiad neu hoyw, ynghyd ag argymhellion teulu neu gyfeillion, yn fwyaf tebygol o ddylanwadu ar ddewisiadau swyddi a chyflogwyr pobl ifanc

★ Roedd y mwyafrif o'r bobl diwaith a ymatebodd yn fyfyrwyr neu'n methu gweithio oherwydd bod ganddynt salwch tymor hir yn cyfyngu arnynt (38% a 21% yn eu tro). Roedd y rhai a oedd yn chwilio am waith yn cadarnhau'r farn bod enw da o ran bod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal yn allweddol wrth ddewis swydd a chyflogwr.

★ Roedd pum deg pedwar y cant o'r rhai a ymatebodd 'allan' gyda'u cyflogwyr i ryw raddau, dirywiad bychan o'i gymharu â chanlyniadau 2003 (59.1%).

★ Dynion, pobl hyn a'r rhai â chyflogau uwch oedd y mwyaf cadarnhaol am eu profiadau yn y gweithle. Ymddengys bod teimladau cyffredinol o unigrwydd ac ynysigrwydd yn y gweithle wedi lleihau ers arolwg 2003 ond dywedodd 30% o hyd nad oeddent yn teimlo eu bod yn medru siarad am eu bywyd preifat yn y gwaith ac roedd 21% o'r rhain yn destun sbort yn y swyddfa.

★ Roedd chwe deg dau y cant yn gweithio yn y sector gyhoeddus (mewn swyddi o fewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg). Roedd pedwar deg dau y cant yn gweithio mewn mentrau bychain neu ganolig eu maint.

★ Y sector gyhoeddus a nodwyd fel yr un 'gorau' ar gyfer diffyg camwahaniaethu wrth recriwtio a datblygu, ac am beidio â bod yn destun disgyblaeth am 'fod yn hoyw', o'i gymharu gyda'r sector breifat.

★ Nodwyd mai'r sector breifat oedd 'y gorau' o ran rhyngweithio a safon bywyd yn y gweithle ar gyfer bobl LHD.

★ Meddai pump y cant o'r sampl eu bod yn credu nad oeddent wedi cael eu cyflogi o achos eu cyfeiriadedd rhywiol yn ystod y 12 mis diwethaf, a dywedodd yr un nifer o bobl eu bod wedi colli eu swyddi am y rheswm hwn dros yr un cyfnod o amser.

★ Yn gyffredinol, sefydliadau bychain a'r rhai yn y sector wirfoddol ddangosodd y canlyniadau gorau o ran annog pobl LHD i deimlo'n gysurus, gan eu bod yn cael eu parchu a'u cynnwys fwyaf gan gydweithwyr yn y gweithfeydd hyn.

★ Ymddengys bod bywyd yn y gweithle wedi gwella ar gyfer y bobl LHD hyn. Dywedodd mwyafrif uchel o'r rhai a ymatebodd bod gan eu cyflogwyr bolisïau LHD da, bod y diwylliant yn eu gweithle yn gwrthod cefnogi cam-drin pobl LHD, ac y byddai ganddynt hyder yn y polisïau a'r gweithwyr Adnoddau Dynol pe bai angen iddynt wneud cwyn am gamdriniaeth ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae'n bosib bod lledaeniad a gweithrediad polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cychwyn cael effaith.

★ Serch hynny, 21% yn unig a ddywedodd bod eu cyflogwyr wedi cydnabod y gellid defnyddio eu gwybodaeth am fywydau LHD er mwyn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w gweithle o ran creu gwell cynnyrch neu wasanaethau.

Gwasanaethau Cyhoeddus a Phreifat

★ Roedd naw deg naw y cant o'r rhai a ymatebodd 'allan' gyda'u cyfeillion agos, ond llai na chwarter 'allan' gyda'u cyfreithiwr, gweithiwr cymdeithasol, prifathro neu ddarparwr yswiriant tai (lle'n berthnasol).

★ Roedd ychydig dros hanner y sampl 'allan' gyda'u meddyg teulu, heb ddangos unrhyw welliant ar ganlyniadau arolwg 2003.

★ O'r sampl, roedd 27% wedi dod i gysylltiad gyda'r system addysg yn y 12 mis diwethaf. Meddai 12% eu bod yn anfodlon / anfodlon iawn gyda'r profiad. Mae hyn yn cymharu gyda 4% o anfodlonrwydd gyda chyfleusterau ysgol (Arolwg Byw yng Nghymru 2004).

★ O'r 41 o dan 20 mlwydd oed a ymatebodd, dywedodd 13 eu bod wedi cael eu bwlio o fewn y 12 mis diwethaf.

★ Roedd dros hanner y sampl wedi dod i gysylltiad gyda'r gwasanaeth iechyd yn y 12 mis diwethaf. O'r rhain, roedd 21% yn dweud eu bod yn teimlo'n anfodlon/anfodlon iawn. Mae hyn yn cymharu gyda 13% o'r boblogaeth yn gyffredinol a ddywedodd eu bod yn teimlo'n weddol anfodlon neu anfodlon iawn gyda chyfleusterau meddygol (Arolwg Byw yng Nghymru, 2004).

★ Yn berthnasol yma, mae canfyddiad Rhaglen Cynhwysiad Iechyd Stonewall yr Alban (2004, 2005), a ariannwyd ac a weithredwyd mewn cydweithrediad â Gweithrediaeth yr Alban. Canfu'r ymchwil parhaus hwn bod 'peidio â bod allan' a/neu 'bod allan' gyda gweithwyr iechyd yn medru arwain at gamddiagnosis neu driniaeth anaddas, lle naill ai nad oes gan y gweithiwr iechyd ddarlun llawn o'r claf neu ei fod yn gwneud rhagdybiaethau ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

★ O ran camwahaniaethu amlwg, nid oedd y rhai a ymatebodd yn teimlo eu bod yn dioddef dan law gweithwyr iechyd yng Nghymru ledled cyfres o fesurau a oedd yn cynnwys meddygon teulu, bydwragedd, a gwasanaethau iechyd yn gyffredinol. Nid yw hyn yn golygu bod yr enghreifftiau o gamwahaniaethu yn gwbl absennol o'r categorïau hyn - nid yw hyn yn wir - gydag, er enghraifft 34 person yn nodi camwahaniaethu gan feddyg teulu a 32 yn nodi triniaeth anaddas. Meddai 18 eu bod yn teimlo'n anghysurus wrth ymweld â phartner yn yr ysbyty.

★ O'r 1 o bob 10 a ddaeth i gysylltiad gyda'r gwasanaethau tai yn y 12 mis diwethaf roedd dros 1/3 yn anfodlon gyda'r lefel o wasanaeth a dderbyniwyd.

★ O ran gwasanaethau sector breifat, rydym eisoes wedi nodi mai ychydig o bobl sy'n datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol i'r darparwyr hyn, gan ddangos lefel o ddrwgdybiaeth am y driniaeth yn sgil hynny, neu efallai am beth fyddai'n digwydd i'r data. Hefyd, roedd chwech y cant yn teimlo bod eu darparwyr yswiriant bywyd yn camwahaniaethu yn eu herbyn, a 4% yn teimlo bod eu banc yn gwneud hynny.

Cyfryngau

★ Mae niferoedd annerbyniol o uchel o bobl LHD yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu tramgwyddo gan y portread o bobl LHD ar y teledu (60%), eu bod yn cael eu tramgwyddo gan erthyglau yn y wasg (63%), a gan ddatganiadau cyhoeddus am bobl LHD (59%). Roedd chwe deg pump y cant wedi'u tramgwyddo gan y diffyg portreadau cadarnhaol o bobl LHD ledled yr holl gyfryngau. Effaith hyn yw gwneud pedwar deg naw y cant o'r rhai a holwyd yn bryderus am erledigaeth homoffobaidd yn sgil portreadau'r cyfryngau. Roedd y pryder mwyaf ymysg y rhai dros 50 oed, y rhai sy'n byw yng nghanolbarth Cymru, yr anabl a'r rhai â lefel uchel o addysg.

Data Monitro Cyfeiriadedd Rhywiol

★ Roedd y rhai a ymatebodd i'r arolwg naill ai 'o blaid' neu'n 'ddifater' i'r monitro ledled yr holl wasanaethau. Roeddent yn gweld ei werth yn arbennig o ran addysg ac iechyd ac fel gweithiwr. Y lleiaf poblogaidd oedd monitro at bwrpas yswiriant. Fel y trafodwyd, gall hyn fod yn ddrwgdybiaeth gyffredinol, neu efallai yn sgil yr arfer hanesyddol o godi premiwm uwch ar ddynion hoyw heb gyfiawnhad cadarn

Argymhellion Polisi o Arolwg Stonewall

Cyfeirir yr argymhellion hyn at Weinidogion sy'n gyfrifol am gydraddoldeb yn eu portffolio, ac i'r rhai sy'n gyfrifol o fewn llywodraeth leol, darparwyr gwasanaethau a busnesau er mwyn sicrhau gweithredu gwelliannau pellach ym mywydau pobl LHD yng Nghymru.

Cyffredinol

★ Mae Deddf Llywodraeth Cymru [s.77] yn ei gwneud yn ofynnol hyrwyddo cydraddoldeb i bawb yng Nghymru. Dylai fod yn statudol ofynnol i bob corff cyhoeddus brif ffrydio cydraddoldeb cyfeiriadedd rhywiol mewn polisi, cynllunio a darpariaeth gwasanaeth.

★ Er mwyn medru gwneud hyn, rhaid cau'r bwlch data am gyfeiriadedd rhywiol

★ Mae angen cefnogaeth gynyddol ar bobl sy'n 'dod allan' fel pobl LHD, gan ymateb i'r cyfnod yn eu bywydau.

Perthynas

★ Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod hyfforddiant ac arweiniad cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer holl staff GIC Cymru yn cynnwys pryderon ac anghenion gofal iechyd LHD.

★ Dylai GIC Cymru gyhoeddi arweiniad o ran cynnwys partneriaid a chyfeillion fel 'perthynas agosaf' pan fo'r claf yn gofyn am hyn.

★ Dylai partneriaid sydd heb eu cofrestru fedru hawlio corff partner i'w gladdu os mai dyma ddymuniad y partner.

★ Mwy o gyngor a mynediad at wasanaethau mabwysiadu i fod ar gael.

Addysg a Phobl Ifanc

★ Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod adnodd DVD Stonewall Cymru ar gael yn ysgolion Cymru i hyfforddi athrawon a thaclo bwlio homoffobaidd.

★ Cynghorwyr ysgol i gael eu hyfforddi i ddeall materion LHD, a bod yn hyderus i drafod hunaniaeth rywiol a pherthynas.

★ Hyfforddiant cydraddoldeb hanfodol i Lywodraethwyr Ysgol, ac ehangu'r dyletswyddau sy'n cael eu gosod ar Lywodraethwyr Ysgol yng Nghymru er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a hil, i gynnwys hyrwyddo cydraddoldeb LHD.

★ Estyn i archwilio i lwyddiant polisïau gwrth-fwlio homoffobaidd yn ysgolion Cymru fel rhan o'r broses arolygu. Dylai arolygon polisiau gwrth-fwlio adrodd ar ganlyniadau mentrau gwrth-fwlio.

★ Monitro canlyniadau cynnwys materion LHD yn fframwaith cyfnod allweddol Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

★ Hyfforddiant amrywiaeth, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth am amrywiaeth a chyfoeth bywydau LHD, i'w fewnosod i'r cwricwlwm TAR, gan ffurfio elfen sylweddol o'r cwrs hyfforddi athrawon.

★ Diweddaru'r hyfforddiant amrywiaeth yn flynyddol.

Datblygu Cymunedol ac Oed

★ Llywodraeth Cynulliad Cymru i alluogi sefydlu rhith rwydweithiau LHD ledled Cymru i gynorthwyo cyfathrebu ar gyfer y ddwy bartneriaeth strategaeth gymunedol leol er mwyn clywed lleisiau pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, yn arbennig y rhai sy'n dod o ardaloedd gwledig a menywod, pobl iau, pobl hyn, pobl ag anableddau ac o leiafrifoedd ethnig.

★ Ystyried yr effaith cyfansawdd pan fo'r ffactorau hyn yn cyfuno.

Cyflogaeth

★ Dylai cyflogwyr geisio ymgysylltu'n ymarferol gyda phobl LHD lle bo rhagdybiaethau negyddol yn 'rhewi' gyrfaoedd arbennig - gwaith cymdeithasol, dysgu, heddlu, gwasanaethau ieuenctid ayyb.

★ Yn unol â rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad am bolisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn sicrhau cyfle cyfartal a herio bwlio ac aflonyddu staff LHD yn y gweithle.

★ Hyfforddiant ar sut i fonitro cyfeiriadedd rhywiol yn effeithiol er mwyn gwella amodau gwaith a chyfleoedd swyddi.

★ Gwneud cysylltiadau 'traws-ffrwd' o fewn yr ymgyrch Cyflog Cyfartal yng Nghymru.

★ Gwneud cysylltiadau 'traws-ffrwd' o fewn yr ymgyrch Cyflog Cyfartal yng Nghymru.

Designed and produced by **Commedia** Cardiff House, Cardiff Road CF63 2AW 0845 130 1508

★ Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru barhau i ystyried effeithiau'r eithriadau rhag y Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003 i sefydliadau crefyddol..

Cyfiawnder Troseddol

★ Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi egwyddor cyflwyno trosedd o annog casineb yn erbyn pobl LHD, a chyflwyno troseddau penodol gan gynnwys trais, aflonyddu ac eiddo fel y troseddau a ysgogir gan hil sy'n cael eu darlunio yn y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn (1998).

★ Gweithrediad effeithiol o'r pwerau i gynyddu dedfrydau carchar am droseddau a ysgogir gan homoffobia (fel sy'n cael ei ddiffinio yn neddf Cyfiawnder Troseddol 2003).

★ Agwedd arfer da cyson wedi'i gyd-drefnu er mwyn annog adroddiadau, delio a chofnodi digwyddiadau a throseddau homoffobaidd o fewn y pedwar heddlu yng Nghymru.

★ Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau hyfforddiant Amrywiaeth ar gyfer bob sefydliad sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat sy'n ymwneud â'r system Cyfiawnder Troseddol i gynnwys ymwybyddiaeth o anghenion penodol pobl LHD.

★ Adnoddau ar gyfer hyfforddiant o'r fath o fewn asiantaethau sector gwirfoddol megis Cymorth i Ddioddefwyr, fel rhan o rwydwaith cyfeirio aml-asiantaeth.

Cyfeirnodau

Donovan, C., Hester, M., Holmes, J., and McCarry, M. (2006) Comparing Domestic Abuse in Same Sex and Heterosexual Relationships: ESRC, Award No. RES-000-23-0650

Ystadegau Cymru (2006) Arolwg Iechyd Cymru 2003/4, Bwletin Iechyd Gofalwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Gwasanaethau Cyhoeddus

★ Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar gael i bobl LHD a'u bod yn ystyried eu hanghenion.

★ Cynllun gwasanaeth sy'n ystyried y ddeddfwriaeth newydd yn erbyn camwahaniaethu o ran nwyddau a gwasanaethau (Rheoliadau Cyfeiriadedd Rhywiol 2007) ond sy'n rhagori ar eu cwmpas drwy edrych ar y rhesymau pam fod pobl LHD yn medru bod yn amharod i gyflwyno'u hunain wrth ddarparwyr iechyd, tai, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol (cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat).

★ Dylid annog monitro cwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cwrdd ag anghenion penodol a sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio i'r ddarpariaeth. Mae angen hyfforddiant i gynhyrchu technegau monitro, dadansoddi, defnydd a storio data mwy effeithiol.

Cyfryngau

★ Er gwaethaf ymgyrch lwyddiannus iawn i godi perthynas gyda'r cyfryngau yng Nghymru a chynnydd sylweddol yn yr adroddiadau cytbwys am fywydau LHD, mae barn negyddol iawn o gyfryngau'r wasg a darlledu yn parhau ymysg pobl LHD yng Nghymru. Mae hyn yn rhannol yn sgil y portread o gymeriadau LHD mewn rhaglenni dychmygol a phoblogaidd. Rhaid i sefydliadau'r cyfryngau wneud mwy i ymgysylltu gyda phobl LHD yng Nghymru a deall effeithiau cynnal rhagfarnau.

Ystadegau Cymru (2006) Cymwysterau Oedolion Oedran Gwaith lefel NQF, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Arolwg Byw yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Williams, M. a Robinson, A (i ddod) Arolwg Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru Gyfan: Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd

Stonewall
CYMRU

Eich Cyfrif a'ch Cynnwys yw'r trydydd arolwg o fywydau pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn y Gymru fodern.

Gobeithiwn y bydd y crynodeb ymchwil a'r argymhellion yn cael eu defnyddio i sicrhau cynhwysiad a chyfraniad pellach fyth ar gyfer a gan bobl LHD yng Nghymru yn y dyfodol.